Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

ADRODDIAD I'R CYNULLIAD

Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn un o chwe phwyllgor pwnc y Cynulliad. Gwneir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9 sy'n caniatáu i'r Pwyllgor adrodd yn ôl i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar sut y mae'n llwyddo i gyflawni ei raglen waith.

2. Cadeirydd y Pwyllgor yw Val Feld. Yr aelodau yw Alun Cairns, Ron Davies, Michael German, Brian Hancock, Ann Jones, Helen Mary Jones, Rhodri Morgan a Phil Williams.

3. Erbyn diwedd Mawrth 2000 bydd y Pwyllgor wedi cynnal deunaw o gyfarfodydd rheolaidd (tri ohonynt yn sesiynau ar y cyd â phwyllgorau pwnc eraill), pedwar cyfarfod teithiol ar y cyd (gyda'r pwyllgorau rhanbarth fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer arian Amcan 1) a thri sesiwn briffio anffurfiol.

Dulliau gweithio

4. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn awyddus i ddatblygu dull agored a chynhwysol o weithio. Mae wedi cydnabod yr angen i glywed oddi wrth a chydweithio'n agos â: sefydliadau sy'n gweithio ym maes datblygu economaidd; Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad; Ysgrifenyddion y Cynulliad; Swyddogion y Cynulliad; y rhai sydd â gwybodaeth arbenigol – ee economegwyr, ystadegwyr, pobl fusnes; y rhai sydd â phrofiad o weithredu polisïau tebyg mewn rhanbarthau a gwledydd eraill – ee ardaloedd Amcan 1 eraill, ardaloedd eraill yn Ewrop; pwyllgorau eraill y Cynulliad; cyrff cynrychioliadol; y sector preifat a'r sector gwirfoddol; y cyhoedd. Bu gweithio â phwyllgorau eraill (yn arbennig y pwyllgorau rhanbarth a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd) yn werthfawr iawn ac mae'r Pwyllgor yn awyddus iawn i weld hyn yn cael ei ddatblygu.

5. Oherwydd sensitifrwydd y materion y mae'r Pwyllgor yn ymdrin â hwy, a'r tir newydd mewn perthynas â chronfeydd strwythurol yn arbennig, byddai'r Aelodau, ar adegau, wedi dymuno derbyn mwy o wybodaeth neu ei dderbyn yn gynt. Mae'r Cadeirydd, llefarwyr y pleidiau a'r Ysgrifennydd Cynulliad eisoes yn trafod sut y gellid unioni hyn yn y dyfodol.

Cylch gwaith y Pwyllgor

6. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd, Rhodri Morgan. Mae hyn yn cynnwys polisi diwydiannol a chymorth busnes (cymorth ar gyfer busnesau cynhenid a mewnfuddsoddi a materion sy'n ymwneud â materion cyflogaeth megis yr isafswm cyflog, y gyfarwyddeb oriau gwaith etc); polisi economaidd Ewropeaidd (cronfeydd strwythurol gan gynnwys monitro sut mae'r rhaglenni yn cael eu rhoi ar waith a goruchwylio gwaith y Pwyllgorau Monitro a'r Asiantaeth Weithredol a gaiff eu sefydlu i reoli y rhaglen Amcan 1); a thwristiaeth. Y prif gyrff cyhoeddus sy'n destun cylch gwaith y Pwyllgor yw Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Chorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.

Blaenoriaethau

7. Roedd nifer o faterion hynod o bwysig i'r Pwyllgor eu trafod yn ystod y naw mis cyntaf. Cytunodd yr Aelodau y dylid rhoi blaenoriaeth i ystyried materion a oedd yn gysylltiedig â'r Cronfeydd Strwythurol, yn arbennig Amcan 1. Roedd hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd y cyfle sy'n wynebu Cymru a allai roi hwb i sawl agwedd arall o Strategaeth Datblygu Economaidd y Cynulliad. Felly nid oedd modd i Aelodau'r Pwyllgor roi cymaint o sylw ag y byddent wedi ei ddymuno i faterion eraill. Canolbwyntiodd y pwyllgor yn bennaf ar:

- Sicrhau bod Cymru yn cael y budd mwyaf o raglenni Cronfeydd Strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd yn arbennig Amcan 1, drwy holi'r Weithrediaeth a'r swyddogion yn fanwl ynghylch y cynigion ar gyfer blaenoriaethau a mesurau; y cynigion ar gyfer gweithredu; targedau a threfniadau monitro a gwerthuso; sicrhau bod digon o arian PES ac arian cyfatebol ar gael yn ystod y blynyddoedd cyntaf ac yn y dyfodol; a derbyn adroddiadau a chadw llygad barcud ar gynnydd y trafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd.

- Archwilio gwaith Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Chorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a sut y maent yn cael eu cyllido.

- Ystyriaeth ragarweiniol o'r trefniadau ar gyfer dirwyn CBDC i ben fel bod modd sicrhau bod Caerdydd a Chymru yn cael y budd mwyaf allan o'r gwariant ar Fae Caerdydd;

- Gwneud argymhellion ar gyfer dyrannu Cyllideb y Cynulliad;

- Datblygu cynlluniau ar gyfer adolygu cymorth busnes a datblygiad busnes yng Nghymru, yn arbennig yn dilyn goblygiadau adroddiad ETAG mewn perthynas â threfniadau'r dyfodol ar gyfer darparu swyddogaethau medrau a menter y CHMau. (Mae'r adolygiad hwn newydd ddechrau).

8. Er bod y Pwyllgor wedi mabwysiadu trefn gaeth o ran blaenoriaethau, roedd y Pwyllgor yn aml yn wynebu agenda a oedd yn cynnwys dwy neu dair eitem a oedd o'r pwysigrwydd mwyaf

ac roedd hi'n amhosibl gwneud cyfiawnder â phob un ohonynt. O gofio nifer bychan yr Aelodau a'r swyddogion, rhaid cydnabod nad mater hawdd fydd datrys hyn, ond mae'r Pwyllgor am i hyn gael ei nodi ar ddu a gwyn.

9. Mae'r blaenoriaethau hyn yn tanlinellu cyfraniad y Pwyllgor tuag at gyflawni amcanion y Cynulliad o ran twf economaidd cynaliadwy ledled Cymru ac yn ganolog i'r strategaeth, fel y'i hamlinellir yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, y mae cynyddu gweithgaredd economaidd, gwella sgiliau, a darparu swyddi drwy barhau i fewnfuddsoddi, gwella medrau, a darparu swyddi a datblygu busnesau cynhenid gyda'r amcan cyffredinol o gau'r bwlch GDP. Maent yn gwbl gyson â'r gwerthoedd a'r egwyddorion arweiniol a gafodd eu cymeradwyo yn y cyfarfodydd llawn a'u hategu yng nghynllun strategol drafft y Cynulliad.

Cronfeydd Strwythurol – yn arbennig Amcan 1

Ystyried y cynigion drafft

10. Cafodd rhaglen ddrafft Amcan 1 a 3 a'r dogfennau gweithredol, ynghyd â'r Strategaeth Datblygu Cenedlaethol, eu hystyried gyntaf gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod yng Ngorffennaf 1999. Penderfynwyd ei bod yn bwysig clywed yn uniongyrchol gan y rhai a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynigion ac yn arbennig y rhai oedd â phrofiad o roi rhaglenni tebyg ar waith, a/neu arbenigedd penodol mewn meysydd craidd megis cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a phennu targedau. Penderfynwyd y dylai'r cyfranwyr, cyn belled ag oedd modd, fod y tu allan i'r broses hy ni ddylent fod yn rhan o'r Tasglu a oedd wedi drafftio'r cynigion.

11. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod teithiol ar y cyd â phwyllgorau rhanbarth y Cynulliad. Gwahoddwyd sefydliadau ac unigolion i gyflwyno eu sylwadau yn ysgrifenedig i'r pwyllgor ac yna i gyflwyno'r rhain yn gryno yn y cyfarfodydd. Roedd y diddordeb a fynegwyd yn galonogol: cyflwynodd 75 o sefydliadau ymatebion ac roedd dros 300 o bobl yn bresennol.

12. Clywodd y Pwyllgor hefyd gan swyddogion a fu ynghlwm, ac sydd dal ynghlwm â chynllunio a gweithredu yn Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban, a rhaglen Amcan 1 Iwerddon, ynghyd â chynghorwyr a gymerodd ran yn gwerthuso rhaglen Glannau Merswy a rhaglenni Amcan 1 eraill ledled y DU ac Ewrop.

13. Y Prif faterion a ddaeth i'r amlwg oedd:

- Yr angen am gydbwysedd rhwng blaenoriaethu a datblygu lleol a chynllunio a monitro strategol cenedlaethol;
- Pwysigrwydd buddsoddi o ran datblygu adnoddau dynol;
- Yr angen i annog a chefnogi cyfranogiad y sector preifat yn y rhaglen;
- Yr angen i sicrhau y byddai pob ardal o fewn rhanbarth y rhaglen elwa o'r rhaglenni a dylid pennu targedau cyraeddadwy a fyddai'n caniatáu i gynnydd yn ardaloedd

gwahanol Cymru gael ei fonitro.
- Pwysigrwydd y broses weithredu, yn arbennig sicrhau bod modd i sefydliadau gwirfoddol a phreifat gael mynediad i arian a chware rôl o ran gyrru'r rhaglen yn ei blaen.
- Pwysigrwydd sicrhau bod y rhaglenni yn cael eu hariannu yn gywir.

14. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion i'r Cabinet yn seiliedig ar yr wybodaeth a dderbyniodd. Cafodd y rhain eu derbyn.

Ystyried materion sy'n gysylltiedig â rhoi'r rhaglen ar waith

15. Wedi i'r Cynulliad gytuno ar y dogfennau a'u gyrru i'r Comisiwn Ewropeaidd, dechreuodd y Pwyllgor ystyried y manylion sy'n gysylltiedig â rhoi'r rhaglen ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys: (mecanweithiau rhoi'r rhaglen ar waith, penodi pwyllgor monitro, pwysigrwydd a chyfansoddiad y partneriaethau); y math o fesurau a chynnwys y pecynnau (cysylltiadau rhwng pecynnau lleol, is-ranbarthol, rhanbarthol, cymorthdaliadau gweithredu); gwybodaeth a chyhoeddusrwydd (cyhoeddi canllawiau clir cyn gynted ag y bo modd); pennu targedau (ar ba lefel, pa mor fanwl, yn seiliedig ar ba ddata, a ddylid casglu/gael data pellach); ariannu (a oes digon ac amseru).

16. Mae'r pwyllgor wedi bod yn arbennig o awyddus i sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn rhan o'r rhaglen. Yr oedd yn teimlo'n gryf y dylid bod cynrychiolaeth gyfartal o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol ar bob lefel (a hynny ar sail 1/3: 1/3: 1/3). Derbyniwyd hyn ac mae wedi ei roi ar waith. Ym marn y Pwyllgor hwn mae'n holl bwysig bod yr wybodaeth am y rhaglen yn cael ei llunio yn ddi-oed a'i bod ar gael yn rhwydd.

Materion ar gyfer y tymor canol

17. Yn y tymor canol bydd angen i'r Pwyllgor ystyried sut y bydd yn monitro'r rhaglen, gan gynnwys ei berthynas â'r pwyllgorau monitro a Gweithrediaeth y Rhaglen. Y mae wedi penderfynu mabwysiadu agwedd strategol a pheidio â rhoi gormod o bwyslais ar fanylion. Bydd yn ystyried ei rôl o ran gwerthuso pa mor dda y mae'r rhaglen yn cyrraedd y targedau a bennwyd yn y Ddogfen Rhaglen Sengl a'r Strategaeth Datblygu Cenedlaethol.

Archwilio cyrff cyhoeddus

18. Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb am archwilio gwaith, a gwneud argymhellion ar ddyraniad y gyllideb i, dri Corff gweithredol a Noddir gan y Cynulliad – Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Chorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod â'r Awdurdod a'r Bwrdd Croeso ddwywaith hyd yn hyn (unwaith yn ffurfiol yn y Pwyllgor ac unwaith yn anffurfiol ar gyfer sesiwn briffio) i drafod strategaethau, blaenoriaethau, gwariant a threfniadaeth. Bydd y Pwyllgor yn ystyried Blaenoriaethau Strategol ar gyfer y ddau gorff ar 15 Mawrth yn ogystal ag ystyried y Strategaeth Twristiaeth a Chynllun Busnes drafft Awdurdod

Datblygu Cymru. Bydd y cyrff yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor.

Dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben

19. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn delio â'r trefniadau ar gyfer dirwyn CBDC i ben, ac ar gyfer datblygu ac ariannu Bae Caerdydd yn y dyfodol. Wrth ystyried y materion, clywodd y Pwyllgor gan CBDC, y cyrff olynol ac Asiantaeth yr Amgylchedd. (Cynhaliodd dri cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd). Mae rhai materion sydd eto i'w datrys a byddant yn destun trafodaeth bellach (er enghraifft y defnydd o'r arian a ddarparwyd ar gyfer Cyngor Sir Caerdydd er mwyn datblygu'r ardal) i fonitro gwerth am arian. Mae posibilrwydd hefyd y bydd rhwymedigaethau sylweddol yn y dyfodol i'r Cynulliad a bydd angen eu monitro'n agos. Bydd y cynlluniau ar gyfer sicrhau bod y buddsoddi a wneir yn y Bae yn darparu manteision sylweddol i Gaerdydd, fel prifddinas Cymru, ac i Gymru gyfan, yn cael eu monitro'n glos.

Cyllideb

20. Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb ddrafft y Cynulliad. Roedd yn bryderus bod y gyllideb Datblygu Economaidd wedi ei thocio £6.6miliwn ar y dechrau ac roedd yn teimlo y byddai tocio y gyllideb Datblygu Economaidd yn anfon y neges anghywir ynghylch pa mor ddifrifol y mae'r Cynulliad wedi ymgymryd â'r gwaith o gynyddu GDP Cymru. Yr oedd am weld y gyllideb yn cael ei hadfer a'r arian ychwanegol yn cael ei dargedu at gymorth ar gyfer busnesau cynhenid, yn arbennig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mynegodd y Pwyllgor bryder arbennig hefyd ynghylch pa mor ddigonol oedd yr arian ar gyfer ariannu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, am doriadau yng nghyllideb y WDA, a maint y gyllideb a ddyrannwyd i Fae Caerdydd. Yr oedd y gyllideb derfynol yn neilltuo £1.397miliwn ychwanegol ar gyfer cefnogi arloesi a mentrau bach a chanolig.

Adroddiad ETAG

21. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn yr argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad ETAG oherwydd y cysylltiad clos sy'n bodoli rhwng medrau, hyfforddiant a datblygu economaidd. Felly mae wedi treulio amser cyfyngedig yn archwilio adroddiad ETAG. Sylwadau'r Pwyllgor a drosglwyddwyd i'r Pwyllgor Addysg ar ôl 16 oed oedd:

- yr angen am gysylltiad clir rhwng y cynigion a'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol;

- y byddai'n ddymunol sicrhau bod sefydliadau lleol a rhanbarthol a argymhellwyd gan yr adroddiad yn gydnaws â strategaethau rhanbarthol a lleol a ddatblygwyd fel rhan o'r rhaglenni Amcan 1, Amcan 2 a 3;

- pryder ynghylch rôl a swyddogaeth sefydliadau rhanbarthol.

- pwysigrwydd cynnwys busnesau yn y strwythur newydd.

22. Cymeradwyodd y Cynulliad y cynlluniau ailstrwythuro a fydd yn arwain at ddiddymu'r CHMau. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn gyfrifol am wneud argymhellion i reoli'r CHMau yn y dyfodol. (Mae hyn yn ffurfio rhan o'r adolygiad o gymorth busnes a datblygiad busnes). Mae'r Pwyllgor eisoes wedi ymweld â CHM ac wedi clywed yn uniongyrchol gan staff sydd ar hyn o bryd yn gyfrifol am roi'r rhaglen fenter ar waith yng Nghymru. Mae proses ymgynghori hefyd ar y gweill. Disgwylir i'r Pwyllgor wneud ei argymhellion erbyn diwedd Mai.

Adolygu cymorth a datblygiad busnes

23. Adolygiad ffurfiol cyntaf y Pwyllgor fydd cymorth busnes a datblygiad busnes. Mae llawer o feirniadaeth wedi bod ynghylch effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y mecanweithiau presennol i gynnal busnesau, yn ogystal â'r gorgyffwrdd sy'n bodoli rhyngddynt. Yr oedd y Pwyllgor o'r farn ei bod hi'n hanfodol bod y mecanweithiau cymorth mor effeithiol ac effeithlon â phosibl er mwyn wynebu'r her o gyflawni'r targedau a bennwyd yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol ac yn Rhaglen Amcan 1. Cylch gwaith yr adolygiad hwn yw:

- Nodi'r ystod presennol o gymorth busnes a rhaglenni datblygu.
- Ystyried eu heffeithiolrwydd ac a ydynt yn bodloni anghenion busnesau.
- Penderfynu a yw'r dulliau o'u cyflwyno yn briodol gan nodi unrhyw le i wella ac ad-drefnu.
- Yng nghyd-destun y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, nodi bylchau yn y ddarpariaeth a gwneud argymhellion ar sut y gellir cyflawni amcanion.

24. Mae'r Pwyllgor wedi penodi cynghorydd arbenigol i'w gynorthwyo gyda'r adolygiad. Fe gymer oddeutu chwe mis i gwblhau a bydd yn cynnwys ymgynghori eang, yn arbennig gyda'r sector preifat.

Blaenraglen waith

25 Prif flaenoriaeth y Pwyllgor fydd cadw golwg ar Amcan 1 a rhaglenni eraill y cronfeydd strwythurol yn y dyfodol agos. Fodd bynnag gall y Pwyllgor gyfrannu hefyd at y nodau a'r amcanion yn Gwell Cymru drwy'r dulliau canlynol (ond bydd yn ystyried ei flaenoriaethau yn ofalus er mwyn defnyddio'r amser cyfyngedig sydd ar gael iddo yn y dull gorau posibl):

- Sicrhau gweledigaeth a chynllun clir ar gyfer datblygu economaidd ar draws Cymru gyfan, yn yr ardaloedd gwledig a threfol, drwy adolygu a gwella'r Strategaeth Datblygu Cenedlaethol newydd yn rheolaidd ac argymell targedau addas;

- Sicrhau bod defnydd llawn yn cael ei wneud o gronfeydd strwythurol Ewrop er mwyn pontio'r bwlch rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig a rhwng gorllewin a dwyrain Cymru a monitro gweithrediad, effeithiolrwydd ac ariannu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol;
- Sicrhau bod gan bawb gyfle i gymryd rhan yn yr economi newydd, drwy ddeall achosion syrthni economaidd ac ystyried dulliau o gynorthwyo pobl i ailymuno â'r gweithlu;
- Hybu menter a thwf busnes (gan gynnwys mentrau cymunedol), drwy gefnogi y Cynllun Gweithredu Mentergarwch ac o ganlyniad i'r adolygiad o gymorth busnes a datblygiad busnes gwneud argymhellion a chynlluniau ar gyfer rhaglenni newydd. (Yn fwyaf arbennig ystyried dyfodol swyddogaethau menter y CHMau a sefydlu banc datblygu);
- Sicrhau bod modd i Gymru elwa ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, drwy adolygu'r cynlluniau a'r strategaeth ar gyfer TGC;
- Hybu datblygu cynaliadwy, drwy gynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu polisi ynni ar gyfer Cymru, a thrwy ystyried agweddau datblygu cynaliadwy yr holl bolisïau y mae'n eu hystyried;
- Codi proffil Cymru, drwy ystyried menter Brandio Cymru;
- Hybu Cymru fel cyrchfan i dwristiaid ac felly cynyddu cyfraniad twristiaeth i economi Cymru, drwy fonitro effeithiolrwydd y Strategaeth Twristiaeth ac ystyried opsiynau ar gyfer datblygu'r diwydiant twristiaeth, bwydydd-amaeth a diwydiannau diwylliannol.

26. Yn ogystal bydd y Pwyllgor yn adolygu perfformiad Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru yn rheolaidd; yn ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad; yn ystyried is-ddeddfwriaeth yn ôl yr angen; yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan yr Ysgrifennydd Cynulliad; yn adolygu materion trawsbynciol megis cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy; yn datblygu perthynas gref â busnesau (fel sy'n ofynnol o dan Gynllun Ymgynghori â Busnes y Cynulliad).

Casgliad

27. Bu'r naw mis cyntaf yn gryn her i'r Pwyllgor. Y prif faterion yw:

- yr angen i'r Cynulliad ddarparu gweledigaeth, a chynlluniau clir drwy'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, i sicrhau twf ledled Cymru; mynd i'r afael â lefelau isel o weithgarwch economaidd, GDP isel a thlodi; ac annog twf busnesau (yn arbennig rhai bach);

- pwysigrwydd sicrhau bod Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn cael eu hariannu yn ddigonol ac yn cael eu gweithredu a'u monitro'n effeithiol er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei sianelu i brosiectau all gyflawni twf economaidd;

- yr angen i adeiladu consensws a phartneriaeth, yn arbennig o ran gweithredu

Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, a phwysigrwydd cael pob rhan o'r sector preifat i chwarae rhan;

- yr angen i gasglu data er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei monitro'n ddigonol ac i sicrhau bod y rhaglenni yn cael eu haddasu er mwyn sicrhau twf cynyddol.

Y Pwyllgor Datblygu Economaidd

7 Mawrth 2000